

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 9 Medi 2021 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.**

**2. Ymddiheuriadau** gan Cyng. Geraint Hughes, Dafydd K Jones, ac Alun Thomas.

### 3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2021.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Tai'n Lon** – Nodwyd mewn ebost gan Rhydian Roberts, YGC eu bod yn ymwybodol fod y cylfat arall yn dipyn llai na'r croesfannau sy'n uwch i fyny a fe fydden nhw yn cadw llygaid ar y sefyllfa rhag ofn fod trafferthion yn codi a trafod gyda perchennog y tir fel fod angan.

**Twll yn y ffordd ger y Wern** – Derbyniwyd ebost gan y Cyng. Megan Tomos fod twll arall wedi ymddangos yn uwch i fyny, a bod y Clerc wedi danfon yr ebost ymlaen at Cyng. Dafydd Meurig. Y Clerc i cysylltu â Dwr Cymru.

**Cysylltiad Fibreoptig** – Nodwyd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn ebost am y Gronfa Band Eang Lleol, ac efallai bod bosib gwneud cais drwy'r cynllun hwn. Gyda'r cyllid hwn, gall awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol ddarparu band eang arloesol i gymunedau mewn rhannau o Gymru nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd at gyflymder band eang 30Mbps ac nad ydynt yn rhan o'r cynllun presennol gydag Openreach. Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi os yw'r cynllun 'rollout' wedi ei cynllunio ar gyfer yr ardal yma yn barod, y Clerc wedi holi am ddiweddariad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

**Cais am drwydded – Fferm Talybont Uchaf** – Cynhaliwyd y pwyllgor trwyddedau ar yr 11eg o Fedi, a phenderfynwyd yr Is-bwyllgor na fyddai'n gwneud penderfyniad

llawn ar y cais trwydded eiddo. Yn hytrach, bydd yn gohirio gwneud penderfyniad llawn ar y cais hyd nes ar ôl i'r ymgeisydd cyflwyno a derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd bwriedig yr eiddo fel a ragwelir gan y cais trwydded eiddo.

**Llyn Bryn** – Nodwyd y Cyng. Kevin Williams fod bwllch arall wedi disgyn ger Llyn Bryn – y Clerc i cysylltu gyda Stad Penrhyn, ac hefyd i atgoffa am y ddau fwllch arall.

**Sedd Wag** – Nodwyd y Clerc fod hysbysiad cyf-ethol y sedd wag yn dod i ben ar y 24ain o Fedi, nid oes neb wedi dangos diddordeb ynnddi hyd yn hyn.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson	Torri gwair Mai 2021	£210.00
Julian Johnson	Torri gwair Mehefin 2021	£340.00
RoSPA	Archwiliad Blynyddol Cae Chwarae Talybont	£107.40
Julian Johnson	Torri gwair Gorffennaf 2021	£210.00
Julian Johnson	Torri gwair Awst 2021	£320.00
Partneriaeth Ogwen	Gwasanaeth Clercio	£3489.18
Partneriaeth Ogwen	Offer diogelwch – swing cae chwarae	£22.31

## 6. Cae chwarae Tal y Bont

**Gardd Cymunedol** – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu a ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

**Cae Pel-droed** – Derbyniwyd ebost gan Glwb Pel Droed Seintiau Lleol Bangor yn holi os oes modd defnyddio Cae Pel Droed Talybont ar gyfer gemau yn ystod y tymor 2021-22. Penderfynwyd y cyngor i roi'r hawl iddynt chwarae gemau yn ystod y tymor hwn, ond eu hysbysu y gallai fod gennym gynlluniau eraill ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodwyd y cyngor eu bod yn falch iawn ei fod yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned leol. Y Clerc i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyngor. Evan Jones ac Alun Thomas a'r Clerc.

**Siglen 'Hurricane'** – Nodwyd fod yr offer hwn wedi torri yn ystod y gwyliau haf, a fod y Clerc wedi trefnu i gcontractwr lleol i ymweld a'r safle a'i wneud yn ddiogel.

Cadarnhawyd fod y Clerc wedi archebu darnau newydd ar gyfer yr offer hwn, ac yn disgwyl am ddyddiad gan y contractwr i drwsio'r offer.

**Ffens** – Nodwyd fod y ffens yn y cae chwarae wedi'i ddifrodi, y Clerc i drefnu iddo gael ei drwsio.

## 7. Y Mynydd

Nodwyd y Clerc ei bod wedi derbyn diweddariad gan Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, am materion y Mynydd. Y Clerc i ddanfôn y wybodaeth ymlaen at aelodau'r Panel Mynydd. Y Clerc i holi'r Parc Cenedlaethol os oes grantiau ar gael i godi waliau'r corlannau, dim ymateb hyd yn hyn.

## 8. Datblygiad Cae Rhosydd

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd ac Adra ddim yn fodlon ymateb i'r cwyn o gamweinyddiaeth gyda'r cais hwn, yn hytrach yn canolbwyntio am yr gofyn am tai rhent cymdeithasol yn yr ardal. Nodwyd y Cyngor Cymuned eu fod yn sylweddoli fod angen am dai rhent cymdeithasol yn yr ardal, ond nid hynny yw ein cwyn. Derbyniwyd llythyr

drafft gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen at Diprwy Prif Weithredwr Adra, yn gofyn am gyfarfod i drafod ein cwyn, a penderfynwyd y Cyngor i ddanfôn y llythyr hwn ymlaen.

## **9. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd** – Ardal Ni, Cyngor Gwynedd – Penderfynwyd gwahodd Dafydd Einion Jones i'r cyfarfod nesaf ym mis Hydref. Y Clerc i gylchredeg yr wybodaeth eto wythnos cyn y cyfarfod.

**Cyflwynwyd** – Parc Cenedlaethol Eryri – Pecyn Plannu Coed – Nid yw'n berthnasol ar hyn o bryd.

**Cyflwynwyd** – Parc Cenedlaethol Eryri – Arolwg: Ein defnydd o'r iaith Gymraeg – Pawb i gwblhau'r arolwg fel unigolion.

## **10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

Dim.

## **11. Penderfyniadau Cynllunio:**

### **C20/0504/21/LL**

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

**Penderfyniad:** ar y gweill.

### **C21/0078/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C21/0099/21/CC**

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C21/0455/21/RA**

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod rhif 13 (Cynllun Tai Fforddiadwy) a 23 (Datganid Dull Ymlusgiaid) ynghyd a rhannol rhyddhau amod 17 (Datganiad Dull Adeiladwaith), 22 (Cynllun Atal Llygredd) ac amod 24 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth).

**Penderfyniad:** ar y gweill.

### **C21/0475/21/AC**

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**NP3/21/46E**

2 Tai'r Cae, Carneddi

Estyniad i adeilad amaethyddol

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**Ceisiadau Cynllunio:****NP3/21/40D**

2 Green Cottage, Llanllechid

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C21/0862/21/RA**

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod 3 (llechi), 4 (manylion defnyddiau allanola'r paneli solar), 9 (cynllun tirlunio) ac amod 15 (cynllun goleuo) o ganiatâd cynllunio rhif C19/0950/21LL

**Penderfyniad:** Dim sylw.

**12. Materion Brys**

**Arwydd Maes y Groes** – Addawodd Cyngor Gwynedd eu bod am gosod arwyddion newydd ger Maes y Groes yn ôl ym mis Rhagfyr 2019, nid oes arwydd newydd wedi ei rhoid ar safle hyd yn hyn. Y Clerc i atgoffa Cyngor Gwynedd ac i holi os oes modd rhoid arwydd ar yr ochr arall hefyd.

**Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes**– Nodwyd y Cyng. Evan Jones bod ceir yn gyrru yn ofandwy o gyflym ar hyd y ffordd ger Maes y Groes – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd cynnal archwiliad ar y safle, ac i ymestyn yr terfyn cyflymder '30' i fyny ar y ffordd pasio Maes y Groes.

**Tyfiant llwybr Cae Rhosydd** – Nodwyd bod tyfiant trwchus yn creu rhwystr i linell y llwybr – y Clerc i gysylltu eto gyda'r adran llwybrau.

**Datblygiadau Bronnydd Isaf** – Nodwyd yn y cyfarfod fod yno fynediad newydd wedi gael ei greu ar lon Bronnydd, ac hwnnw yn arwain at gaban newydd ar dir y fferm. Y Clerc i holi os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

**Cyfarfod wyneb i wyneb** – Penderfynwyd y Cyngor barhau â chyfarfodydd rhithiol am y tro, gan fod yr achosion cofid yn codi yn ardal ar hyn o bryd.